
# Adroddiad Blynyddol
# 2025-2026

# Cynnwys


1. Datganiad gan y Cyfarwyddwr Gweithredol ........ 3
2. Trosolwg o'r Rhaglen ........ 4
3. Effaith y Rhaglen Taith ........ 5
4. Cyflawni'r Rhaglen: Prif Benawdau ........ 12
5. Llywodraethiant, Risg a Sicrwydd ........ 16
6. Datganiadau Ariannol ........ 18

## 1. Datganiad gan y Cyfarwyddwr Gweithredol

Mae'n bleser gennyf gyflwyno Adroddiad Blynyddol Taith ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu ein cynnydd wrth gyflawni rhaglen gyfnewid dysgu rhyngwladol Cymru ac yn myfyrio ar effaith ein gwaith yn ystod blwyddyn lwyddiannus o ddatblygiad ac ymgryfhau parhaus.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae Taith wedi cryfhau ei rôl ymhellach o ran galluogi a chefnogi dysgwyr, staff a sefydliadau ledled Cymru i ymgysylltu'n rhyngwladol. Mae ein ffocws wedi parhau ar sicrhau bod cyfleoedd a ariennir drwy Taith yn hygyrch, yn gynhwysol, ac yn cyd-fynd â'n hamcanion strategol, yn enwedig wrth ehangu mynediad a chefnogi dysgwyr a allai fel arall wynebu rhwystrau i gyfleoedd cyfnewid rhyngwladol. Wrth i'r rhaglen barhau i aeddfedu, rydym wedi cynnal ein hymrwymiad cryf i wella'n barhaus ar lefelau strategol a gweithredol, gan flaenoriaethu ein model cefnogol a hyblyg o ymgysylltu â'r sectorau. Yn y cyd-destun hwn, rydym wedi mireinio ein model cyflawni ymhellach, wedi'i lywio gan ymgysylltu â rhanddeiliaid, adborth, a dysgu o brofiad gweithredol.

Mae'r flwyddyn hon hefyd wedi'i nodi gan amgylchiadau allanol newidiol ac ansicr. Er gwaethaf y pwysau hyn, rydym wedi cadw ein ffocws ar gydweithio, llywodraethu effeithiol, a rheolaeth gadarn yn ogystal â chyfrifol o arian cyhoeddus. Rydym wedi gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, Derbynwyr Grantiau a'n rhanddeiliaid ehangach i sicrhau bod Taith yn gweithredu gyda thryloywder, atebolrwydd, a phwyslais cryf ar werth am arian, gan gyflawni canlyniadau cadarnhaol ar gyfer dysgwyr a sefydliadau ledled Cymru

Wrth edrych ymlaen, ein blaenoriaeth yw parhau i adeiladu ar y sylfaen hon drwy wneud y mwyaf o effaith hirdymor y rhaglen a thrwy ddiogelu ei hetifeddiaeth. Byddwn yn parhau i gryfhau partneriaethau, mireinio a gwella ein prosesau, a sicrhau bod manteision Taith yn cyrraedd dysgwyr a chymunedau ym mhob rhan o Gymru. Rydym yn parhau i gyfrannu at Gymru fwy cysylltiedig yn fyd-eang, cynhwysol a hyderus.

Hoffwn ddiolch i dîm gwych Taith am eu proffesiynoldeb, eu hangerdd a'u hymroddiad, yn ogystal â Chyfarwyddwyr Bwrdd ILEP Cyf, aelodau'r Bwrdd Ymgynghorol, Derbynwyr Grantiau, a rhanddeiliaid ehangach am eu cydweithrediad a'u cefnogaeth barhaus. Rydym hefyd yn ddiolchgar i gydweithwyr yn Llywodraeth Cymru am ariannu'r rhaglen ac am eu harweiniad parhaus. Gyda'n gilydd, rydym yn helpu i sicrhau bod cyfleoedd dysgu rhyngwladol yn cael effaith sy'n newid bywydau dysgwyr ac i Gymru

**Susana Galván Hernández**
**Cyfarwyddwr Gweithredol, Ebrill 2026**

## 2. Trosolwg o'r Rhaglen

Mae Taith yn rhaglen gyfnewid dysgu rhyngwladol ar gyfer Cymru sy'n cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru. Mae Taith ar gyfer pobl ym mhob rhan o Gymru, ym mhob sector addysg – ysgolion, ieuenctid, addysg oedolion, addysg bellach, addysg a hyfforddiant galwedigaethol, ac addysg uwch. Mae'n cynnwys pob math o addysg – ffurfiol, anffurfiol ac heb fod yn ffurfiol.

Yn Taith, rydym wedi ymrwymo o ddifrif i feithrin diwylliant o gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Mae'r egwyddorion hyn wrth wraidd ein gwerthoedd craidd, gan yrru ein llwyddiant fel rhaglen gyfnewid ryngwladol gynhwysol, ac maen nhw'n cael eu hamlygu gan y nifer fawr o gyfranogwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol sydd wedi elwa o'r rhaglen hyd yn hyn.

Mae symudeddau a phrosiectau Taith yn ceisio ysbrydoli dysgwyr a chodi dyheadau. Dyma pam rydym hefyd yn ariannu prosiectau ar gyfer addysgwyr a staff sy'n creu buddion uniongyrchol a pharhaol i genedlaethau o ddysgwyr. Mae Taith yn creu cyfleoedd i ehangu gorwelion, profi ffyrdd newydd o fyw, a dod â gwersi yn ôl i'w rhannu gyda phobl gartref.



# 3. Effaith y Rhaglen Taith

*"Do'n i ddim yn gwybod beth i ddisgwyl, ond des i adref gydag atgofion, cyfeillgarwch a syniad o bwy allwn i fod"*

*"Dysgodd Siapan i mi fod pob cam tu allan i'ch parth cysur yn gam tuag at bwy rydych chi i fod"*

*"Mae teithio i Siapan wedi newid fy mywyd – ac mae wedi ei agor hefyd"*

Disgyblion Ysgol Uwchradd Casnewydd

## 3.1 Gwerthusiad Annibynnol y Rhaglen

Mae gwerthuso Taith yn annibynnol yn ofyniad yn Llythyr Cytundeb Grant Llywodraeth Cymru gydag ILEP Ltd. Hyd yn hyn, mae *Wavehill Consulting* wedi cael eu comisiynu i wneud gwerthusiadau cychwynnol ac interim Taith, yn ogystal â gwerthusiadau cychwynnol a therfynol cynllun Cymru Fyd-eang III.

***Gwerthusiad Cychwynnol Taith***
Cafodd hwn ei gwblhau ym mis Mawrth 2024. Comisiynwyd y gwerthusiad hwn i sefydlu theori newid y rhaglen, datblygu fframwaith gwerthuso ar gyfer camau dilynol, cynnal adolygiad o system fonitro'r rhaglen ochr yn ochr â chefnogaeth i ddatblygu offer newydd a gweithredu gwelliannau, a darparu asesiad cychwynnol o berfformiad cyflawni.

***Gwerthusiad Interim Taith***
Cafodd hwn ei gwblhau ym mis Mehefin 2025. Defnyddiodd y gwerthusiad hwn adborth gan Dderbynwyr Grantiau, cyfranogwyr symudedd, a rhanddeiliaid. Daeth y gwerthusiad i'r casgliad bod Taith yn cyd-fynd yn gryf â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ac yn darparu manteision clir i ddysgwyr, staff a sefydliadau trwy gyfnewidiadau dysgu rhyngwladol, yn enwedig trwy ehangu mynediad ar gyfer grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.

Tynnodd y gwerthusiad sylw hefyd at y ffaith bod y rhaglen wedi'i chyflwyno'n effeithiol gyda lefelau uchel o foddhad ym mhob grŵp o randdeiliaid. Mae wedi llwyddo i ddiwallu

anghenion yr holl sectorau cymwys, gan ddatblygu perthnasoedd cryf a chefnogol ac ymgysylltiad da.

Mae Taith wedi llwyddo i ymgysylltu â nifer fawr o sefydliadau, ac o ganlyniad mae hi wedi cael ei or-danysgrifio ac wedi derbyn ceisiadau gan nifer sylweddol fwy o sefydliadau o'i gymharu ag Erasmus+ dros gyfnod cymharol. Mae'r rhaglen hefyd wedi ariannu mwy o sefydliadau nag a ariannwyd gan Erasmus+ yng Nghymru dros gyfnod cymharol, ac mae wedi bod yn arbennig o lwyddiannus wrth ymgysylltu â sefydliadau Ieuenctid ac Addysg Oedolion. Mae'n arbennig o nodedig bod y rhaglen wedi llwyddo i ymgysylltu â sefydliadau 'newydd', ac mae nifer y sefydliadau sy'n gwneud cais am y tro cyntaf wedi cynyddu o flwyddyn i flwyddyn, gan ddangos galw cryf am y gefnogaeth a ddarperir iddyn nhw.

Mae'r adroddiad hefyd yn dod i'r casgliad mai prif gyflawniad y rhaglen hyd yma, gellir dadlau, yw ei hymgysylltiad â grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, sydd wrth wraidd gwerthoedd craidd Taith. Mae'r rhaglen wedi parhau i ddarparu gweithgareddau cynhwysol o ansawdd uchel ar draws pob sector addysg trwy Lwybrau 1 a 2, gan gefnogi arloesedd addysgol trwy gydweithio rhyngwladol. Er gwaethaf pwysau allanol sylweddol, gan gynnwys costau cynyddol a gostyngiadau yn y gyllideb, mae Taith wedi dangos gwydnwch ac ymrwymiad cryf i wella'n barhaus.

Casgliad arwyddocaol arall oedd bod y rhaglen wedi darparu gwerth am arian 'da' i 'rhagorol' ar draws y rhan fwyaf o'r dangosyddion a ddefnyddiwyd. Roedd Dangosyddion Tegwch yn arbennig o gryf, gyda 6 allan o 8 wedi'u graddio'n rhagorol, gan gynnwys cyfrannau o unigolion heb gynrychiolaeth ddigonol a dan anfantais sy'n ymwneud â Taith.

### *Gwerthusiadau Cychwynnol (Mawrth 2024) a Therfynol (Tachwedd 2025) o Cymru Fyd-eang III*

Mae Cymru Fyd-eang III yn gynllun a gyflwynir gan Brifysgolion Cymru ac a ariennir gan Taith tan fis Gorffennaf 2025. Ei nod yw gwella gwelededd, cyrhaeddiad ac effaith sectorau addysg uwch ac addysg bellach Cymru mewn marchnadoedd rhyngwladol allweddol.

**Mae crynodebau gweithredol** o'r gwerthusiadau hyn ar gael yn adran ***Effaith*** yng ngwefan Taith.

### *Gwerthusiad Terfynol Taith*

Bydd hwn yn digwydd rhwng Ebrill a Rhagfyr 2027.

## 3.2 Prosiectau, Straeon ac Effaith Ansoddol

*"Mae bod yn rhan o brosiect Taith fel bywyd ei hun. Mae'n cynnwys dysgu, rhannu, negodi, cyfathrebu, bod yn agored ac yn hael, wynebu heriau ac ofnau, a dod â syniadau a phobl at ei gilydd, beth bynnag ydyn nhw, lle bynnag maen nhw, a beth bynnag maen nhw'n ei wneud. Fel cymuned. Fel bywyd"*

Sara Novo Loureiro, Cydlynydd Prosiect – Rhaglen Dramor, Coleg Gwent

***Gwybodaeth a Data Prosiectau***
Mae adran bwrpasol o wefan Taith wedi'i datblygu i gynnwys data a gwybodaeth am **'Brosiectau a Gynlluniwyd'** a **'Prosiectau wedi'u Cwblhau'** a ariennir gan Taith

Mae'r ardal **'Prosiectau a Gynlluniwyd'** yn cynnwys gwybodaeth am yr holl brosiectau sydd wedi derbyn cyllid Taith hyd yn hyn, a gellir eu hidlo yn ôl blwyddyn ariannu, llwybr ariannu, sector ac awdurdod lleol, gyda chrynodeb byr o'r cynlluniau ar gyfer pob sefydliad llwyddiannus sy'n gwneud cais. Mae'r data a ddarperir, gan gynnwys y gyllideb a ddyrannwyd a chytunwyd a nifer y cyfranogwyr, wedi'i gymryd o'r hyn a ddarparwyd yn ystod y cam ymgeisio.

Mae'r ardal **'Prosiectau wedi'u cwblhau'** yn cynnwys gwybodaeth am yr holl brosiectau a ariannwyd gan Taith a sy wedi eu cwblhau. Gellir hidlo'r rhain gan ddefnyddio'r un paramedrau â'r rhai yn yr ardal 'Prosiectau a Gynlluniwyd' yn ogystal â thrwy offeryn map rhyngweithiol. Mae'r tudalennau'n darparu proffiliau cryno unigol o bob un o'r prosiectau a gwblhawyd, sy'n cynnwys data meintiol ac ansoddol, yn ogystal â delweddau a dyfyniadau gan gyfranogwyr. Mae'r proffiliau hyn yn adlewyrchu'r naratif a ddarparwyd gan y Derbynwyr Grant yn eu hadroddiadau terfynol.

Yn ogystal, mae dau offeryn casglu data craidd wedi'u datblygu i ddeall effaith rhaglen Taith yn well: **arolwg cyfranogwyr** ar gyfer prosiectau Llwybr 1, sy'n cofnodi profiadau a chanlyniadau lefel dysgwyr; ac **arolwg Derbynnydd Grant** ar gyfer prosiectau Llwybr 2, sy'n canolbwyntio ar allbynnau, canlyniadau ac effaith sefydliadol.
Ynghyd ag adroddiadau Derbynwyr Grantiau, mae'r offer hyn yn casglu tystiolaeth ansoddol a meintiol gadarn ar fanteision trawsnewidiol gweithgareddau Taith a'i gyfraniad at flaenoriaethau sector ledled Cymru.

***Straeon Taith***

Mae Taith wedi parhau i adeiladu cronfa gynhwysfawr o **straeon effaith**, gyda'r nod o ddangos a chyfleu effaith y rhaglen trwy ymgysylltu â'r cyfryngau cymdeithasol ar draws sawl platfform.

Mae'r straeon hyn yn arddangos y symudeddau anhygoel sydd wedi newid bywydau ac wedi cael effaith. Mae rhai enghreifftiau'n cynnwys:

- Ymweliad â'r Cenhedloedd Unedig gan grŵp o bobl ifanc o **NYAS Cymru**, sefydliad sy'n hyrwyddo hawliau a lleisiau pobl ifanc a phlant yn y system gofal. Ynghyd â'r bobl ifanc maen nhw'n eu cefnogi, fe wnaethon nhw gyd-gynllunio profiadau rhyngwladol pwerus i archwilio sut mae eiriolaeth ar gyfer pobl ifanc sydd wedi cael profiad o ofal yn cael ei chyflwyno ledled y byd.
- Y cyfnewid i Seland Newydd a arweiniodd at lansio **Our Voice Our Journey**, sefydliad newydd dan arweiniad pobl ifanc sy'n mynd i'r afael â thrais ac anghydraddoldeb ar sail rhywedd yng Nghymru.
- Cyfnewid dysgu i Baris gan grŵp o ddisgyblion o **Ganolfan Amanwy**. Mae Canolfan Amanwy yn gyfleuster Awdurdod Lleol ar gyfer dysgwyr ag anawsterau dysgu difrifol, anawsterau dysgu lluosog dwys a diagnosisau ychwanegol o Flwyddyn 7 i Flwyddyn 14.

---

*"Mae Rhaglen Taith Llywodraeth Cymru yn fenter hanfodol i bobl ifanc ledled Cymru gan ddarparu cyfleoedd trawsnewidiol i deithio dramor, profi diwylliannau newydd, ac ehangu gorwelion. I lawer, hwn yw eu cyfle cyntaf i gamu tu hwnt i'w cymunedau a datblygu sgiliau hanfodol fel annibyniaeth a gwydnwch. Yng Nghlybiau Bechgyn a Merched Cymru, rydyn ni'n gweld yn uniongyrchol sut mae'r profiadau hyn yn ysbrydoli pobl ifanc i freuddwydio'n fwy, magu hyder, a chofleidio persbectif byd-eang. Mae Taith yn fuddsoddiad yn y dyfodol, gan rymuso'r genhedlaeth nesaf i gyrraedd eu potensial llawn a chyfrannu'n gadarnhaol at Gymru a'r byd ehangach"*

Grant Poiner, Prif Swyddog Gweithredol, Clybiau Bechgyn a Merched Cymru

---

***Dathliad Taith yn y Senedd***
Ym mis Hydref 2025, cynhaliodd Taith ddigwyddiad dathlu yn y Senedd i nodi tair blynedd o'r rhaglen a'r effaith anhygoel mae wedi'i chael ar bobl, sefydliadau, ysgolion a chymunedau ledled Cymru. Roedd y digwyddiad hwn yn cynnwys **fideo arbennig i ddathlu tair blynedd o Taith**.

Cafodd y digwyddiad ei noddi gan Heledd Fychan AS. Mynychodd Mark Drakeford AS fel un o'r siaradwyr, ynghyd â phymtheg o siaradwyr ysbrydoledig eraill o sawl sefydliad a gymerodd ran. Yn ogystal, roedd arddangosfa o waith a phrosiectau a ariannwyd gan Taith gan tua phedwar deg o gyfranwyr mewn marchnad bwrpasol. Ychwanegodd perfformiad annisgwyl gan ddawnswyr Avant Cymru uchafbwynt gwych i'r diwrnod. Roeddem yn wirioneddol syfrdanol gan y nifer a ddaeth, yr ymgysylltiad, a'r nifer o negeseuon diolch a gwerthfawrogiad a dderbyniom wedi hynny. Roedd yn adlewyrchiad clir o ba mor ystyrlon yw rhaglen Taith i gynifer o sefydliadau a phobl ledled Cymru.

Ffilmiodd un o'n Derbynwyr Grant, **Gwasanaeth Ieuenctid Caerdydd**, y digwyddiad a chynhyrchu fideo gwych sy'n arddangos y rhaglen yn bwerus:



## 3.3 Effaith Ehangach

Mae Taith yn rhaglen fach ac ifanc o'i chymharu â chynlluniau symudedd rhyngwladol sefydledig fel Erasmus+. Fodd bynnag, er gwaethaf ei maint a'i chyfnod cynnar o ddatblygiad, mae Taith wedi dangos effaith sylweddol ac wedi denu sylw cynyddol tu hwnt i Gymru, gan gynnwys ledled y DU ac yn rhyngwladol, fel mae'r enghreifftiau isod yn dangos.

***Ymchwil ar Symudedd Rhyngwladol***
Mae Johanna Waters, Athro Daearyddiaeth Ddynol yn UCL, wedi tynnu sylw at lwyddiant Taith fel rhan o'i hymchwil ar effaith symudedd rhyngwladol myfyrwyr ar unigolion, teuluoedd a chymunedau. Gwnaeth llwyddiant Taith o ran hwyluso symudedd rhyngwladol pobl ifanc heb gynrychiolaeth ddigonol o Gymru argraff arbennig ar yr Athro Waters, a sut mae'r rhaglen 'wedi caniatáu i unigolion (ac, yn bwysicach fyth, grwpiau) ystyried cyfnod dramor pan fyddai hyn wedi bod yn annirnadwy o'r blaen'.

Ysgrifennodd yr Athro Waters at Gadeirydd Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd ar 7 Ionawr 2026 i dynnu sylw at lwyddiant ac arwyddocâd y rhaglen ac i ofyn am ei pharhad.

***Y DU yn ailymuno ag Erasmus+***
Yng nghyd-destun ailymuno ag Erasmus+, mae Llywodraeth y DU a rhanddeiliaid eraill wedi cydnabod yn eang bod gwersi i'w dysgu o lwyddiant Taith, yn enwedig o ran ymgysylltu ac annog y sectorau i gymryd rhan, a bod angen ymgorffori'r rhain yn y broses o gyflwyno Erasmus+ yn y DU. Cydnabu Nick Thomas-Symonds, a gyfarfu tîm Taith ym mis Tachwedd 2025, yr ymrwymiad i ddysgu o raglen Taith yn ffurfiol gan San Steffan.

Mae Dirprwyaeth yr UE yn y DU wedi bod yn dilyn datblygiad rhaglen Taith ac yn ymgysylltu â thîm Taith ers lansio'r rhaglen yn 2022. Mae'r tîm yn y Ddirprwyaeth wedi cydnabod llwyddiant Taith yn llawn – cawsant eu cyfweld fel rhan o'r gwerthusiad interim – ac maent yn cydnabod yr angen i ddysgu o'n model gwaith i wella ymgysylltiad holl sectorau dysgu'r DU yn rhaglen Erasmus+.

***Bloomberg Associates***
Mae Bloomberg Associates yn gwmni ymgynghori dyngarol yn yr Unol Daleithiau sy'n cynghori dinasoedd ledled y byd ac mae'n rhan o Bloomberg Philanthropies. Maent yn enghraifft o sefydliad rhyngwladol mawr a llawn bri a gymerodd ddiddordeb brwd yn rhaglen Taith. Deilliodd y diddordeb hwn o ddarn o ymchwil a gomisiynwyd gan

Awdurdod Llundain ar arferion gorau byd-eang mewn cyfnewid rhyngwladol. Ymwelodd cynrychiolwyr Bloomberg o Efrog Newydd, Rose Gill a Rachel Pollan, â Chymru ym mis Hydref 2025, cyn eu cyfarfodydd â Maer Llundain, i gyfarfod yn benodol â thîm Taith a sawl sefydliad a chyfranogwr a ariennir gan Taith. Fel rhan o'u hymchwil, disgrifiodd tîm Bloomberg Taith nid yn unig fel enghraifft o arfer gorau, ond fel 'y model' o symudedd ieuenctid i'w efelychu. Mewn darn arall o waith maent wedi'i wneud ar gyfer dinas Detroit, mynegodd eu Maer yn syml ei fod eisiau rhaglen Taith ar gyfer ei ddinas ei hun

> *"Mae wedi bod yn anhygoel tynnu'r llen a gweld pawb tu ôl i'r cynhyrchiad anhygoel hwn. Dw i'n meddwl gall pawb edrych yn y drych a dweud wrthyn nhw eu hunain, 'Rydyn ni wir yn helpu pobl'. Rydyn ni wedi cwrdd â rhai o'r unigolion sy'n elwa o'r gwaith mae'r sefydliad hwn [Taith] yn ei wneud, ac mae'n real, ac mae'n anhygoel. Rydych chi'n gwneud y byd yn lle gwell"*
>
> Rose Gill, Pennaeth, Bloomberg Associates

***Taith yn y cyfryngau***

Mae rhaglen Taith wedi denu sylw'r cyfryngau yn ystod y flwyddyn, yn enwedig yng nghyd-destun cadarnhau'r DU yn ailymuno ag Erasmus+ a'r sefyllfa bresennol sy'n golygu bydd Taith yn dod i ben yn 2027, heb unrhyw ymrwymiad i barhau cyn etholiadau'r Senedd sydd ar ddod.

Mae'r sylw hwn wedi cynnwys erthygl yn y *Times Higher Education* o'r enw *"Wales urged to continue 'life-changing' Taith student exchange scheme"* (17/02/2026); erthygl yn *The Guardian* o'r enw "'Life-changing' international learning scheme in Wales at risk of closure" (19/03/2026); a sôn am effaith Taith a'r achos dros ei barhad mewn pennod sy'n canolbwyntio ar Gymru o'r podlediad gwleidyddol o'r DU *The Quiet Riot* (22/03/2026, munud 37:53).

## 4. Cyflawni’r Rhaglen: Prif Benawdau

### 4.1 Llwybrau Ariannu

Mae rhaglen Taith wedi'i strwythuro o amgylch dau lwybr ariannu:

Mae cyllid **Llwybr 1** yn cefnogi cyfnewid dysgu rhyngwladol drwy symudedd allanol (cyfranogwyr yn mynd o Gymru) a mewnol (cyfranogwyr yn dod i Gymru) o naill ai grwpiau neu gyfranogwyr unigol. Mae cyllid ar gael i ddysgwyr, pobl ifanc a staff ymgymryd â chyfnewidiadau rhyngwladol tymor byr a hirdymor sy'n darparu cyfleoedd i rannu dysgu, profi gwahanol ddiwylliannau a datblygu sgiliau newydd. Y sectorau sy'n gymwys i gael cyllid yw Ysgolion, Ieuenctid, Addysg Oedolion, Addysg Bellach ac Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol, ac Addysg Uwch (sy'n cwmpasu Addysg ac Ymchwil).

Mae cyllid **Llwybr 2** yn cefnogi arloesedd addysgol drwy bartneriaethau cydweithredol rhyngwladol dan arweiniad Cymru sy'n mynd i'r afael â mater penodol neu flaenoriaeth sector yng Nghymru. Mae cyfnewid rhyngwladol yn galluogi rhannu gwybodaeth, arbenigedd a dysgu cydweithredol rhwng sefydliadau Cymreig a rhyngwladol, er mwyn datblygu damcaniaethau ac ymarfer mewn addysg yng Nghymru ac yn rhyngwladol. Bwriad cyllid Llwybr 2 yw cefnogi prosiectau na fyddai'n bosibl heb fewnbwn ac arbenigedd sefydliadau partner rhyngwladol. Y sectorau sy'n gymwys i gael cyllid yw Ysgolion, Ieuenctid, Addysg Oedolion, Addysg Bellach ac Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol.



## 4.2 Ceisiadau a Chyfranogiad hyd yma

Mae **Tabl 1** yn cyflwyno data am geisiadau ar gyfer galwadau ariannu Llwybr 1 a Llwybr 2 a gyflwynwyd hyd yma. Mae'r rhain yn cynnwys

- cyfanswm nifer y ceisiadau a dderbyniwyd
- cyfanswm nifer y ceisiadau a ariannwyd
- tueddiadau parthed ymgeiswyr newydd o gymharu â blynyddoedd ariannu blaenorol

**Tabl 1**

| Sector | 2022 | | 2023 | | | 2024 | | | 2025 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Derbyn[1] | Ariannu[2] | Derbyn | Newydd[3] | Ariannu | Derbyn | Newydd[4] | Ariannu | Derbyn | Newydd[5] | Ariannu |
| **Ysgolion** | 34 | 22 | 47 | 34 | 36 | 46 | 26 | 34 | 80 | 39 | 38 |
| **Ieuenctid** | 26 | 17 | 25 | 13 | 17 | 35 | 16 | 25 | 58 | 26 | 43 |
| **Addysg Oedolion** | 16 | 9 | 10 | 4 | 5 | 11 | 4 | 9 | 19 | 8 | 13 |
| **Addysg Bellach** | 16 | 12 | 20 | 4 | 14 | 17 | 3 | 13 | 24 | 5 | 16 |
| **Addysg Uwch** | 14 | 14 | 14 | 0 | 14 | 6 | 0 | 6 | 10 | 0 | 8 |
| **Cyfanswm** | **106** | **74** | **116** | **55** | **86** | **115** | **49** | **87** | **191** | **78** | **118** |

**Nodiadau:**
1. *Nifer o geisiadau a dderbyniwyd.*
2. *Nifer o geisiadau a arianwyd.*
3. *Nifer o sefydliadau newydd yn ceisio am arian Taith, o gymharu â 2022.*
4. *Nifer o sefydliadau newydd yn ceisio am arian Taith, o gymharu â 2022 a 2023.*
5. *Nifer o sefydliadau newydd yn ceisio am arian Taith, o gymharu â 2022, 2023 a 2024.*

Mae'r data'n dangos galw parhaus am gyfleoedd rhyngwladol ar draws sectorau, ochr yn ochr ag ehangu cyson mewn cyfranogiad gan sefydliadau sy'n newydd i'r rhaglen.

## 4.3 Cyllid a Ddyfarnwyd hyd yn hyn

### *Llwybr 1*

Mae **Tabl 2** yn dangos y cyllid a ddyfarnwyd hyd yn hyn o dan Lwybr 1, fesul blwyddyn a fesul sector.

**Tabl 2**

| Sector | 2022 | 2023 | 2024 | 2025 |
|---|---|---|---|---|
| **Ysgolion** | £2,139,513 | £1,758,991 | £1,222,661 | £1,346,127 |
| **Ieuenctid** | £1,035,912 | £1,004,407 | £846,040 | £1,241,245 |
| **Addysg Oedolion** | £184,297 | £231,441 | £298,673 | £305,211 |
| **Addysg Bellach** | £1,564,250 | £1,190,191 | £847,211 | £855,100 |
| **Addysg Uwch** | £5,551,017 | £2,997,088 | £1,548,479 | £1,264,963 |
| **Cyfanswm** | **£10,474,989** | **£7,182,118** | **£4,763,064** | **£5,012,646** |

Mae dosbarthiad y cyllid yn adlewyrchu ymrwymiad strategol Taith i gefnogi grwpiau a sectorau dysgwyr amrywiol ledled Cymru, gan ymateb i amrywiadau yn y galw ac aeddfedrwydd y rhaglen dros amser.

***Llwybr 2***


Mae **Tabl 3** yn dangos  y cyllid a ddyfarnwyd hyd yn hyn o dan Lwybr 1, fesul blwyddyn a fesul sector.

**Tabl 3**

| Sector | 2022 | 2023 | 2024 | 2025 |
|---|---:|---:|---:|---:|
| **Ysgolion** | £430,945 | £441,653 | £321,273 | £93,564 |
| **Ieuenctid** | £174,556 | £151,525 | £309,218 | £173,885 |
| **Addysg Oedolion** | £194,499 | - | £165,788 | £75,589 |
| **Addysg Bellach** | £270,390 | £302,915 | £123,688 | £147,883 |
| **Cyfanswm** | **£1,070,390** | **£896,093** | **£919,967** | **£490,921** |

## 4.4 Statws Cwflawni a Chyrhaeddiad Hyd yn Hyn

Hyd at 31 Mawrth 2026, roedd rhaglen Taith **wedi cyflawni 81% o'i tharged o 15,500 o symudeddau**. Dyma rai o'r niferoedd a gyflawnwyd hyd yma:



***Hygyrchedd a Chynhwysiant***[1]

Mae Taith wedi ymrwymo i fod mor gynhwysol a hygyrch â phosibl. Ers lansio'r rhaglen yn 2022, mae **47% o ddysgwyr allanol** wedi dod o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol (o gefndiroedd difreintiedig, Anabl, y rhai ag ADY a'r rhai o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig).

Yn 2024, fe wnaethom ni weithredu polisi sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob prosiect gynnwys o leiaf 25% o ddysgwyr o gefndiroedd heb gynrychiolaeth ddigonol. Ochr yn ochr â'r newid polisi hwn, rydym ni wedi canolbwyntio ein cyfathrebiadau ar godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd agor cyfleoedd i'r rhai sydd â'r rhwystrau mwyaf ac ar gefnogi Derbynwyr Grantiau i alluogi mwy o unigolion heb gynrychiolaeth ddigonol i gymryd rhan. Mae hyn wedi cael effaith sylweddol - **ar gyfer prosiectau a ariannwyd ers 2024, mae 62% o ddysgwyr allanol wedi dod o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.**

---

*“Mae'r daith i Baris, Ffrainc wedi bod ac yn parhau i fod y cyfle mwyaf anhygoel bydd ein disgyblion yn ei gael. Mae'r cyfle i deithio mewn 'AWYREN' a mynd dramor yn rhywbeth na fyddai'r rhan fwyaf o'n dysgwyr byth wedi breuddwydio amdano! Roedd mynd i fyny Tŵr Eiffel a chael y traffig o amgylch yr Arc De Triomphe wedi'i atal fel gallai ein defnyddiwr cadair olwyn fynd draw a'i weld yn uniongyrchol yn atgof i bob un ohonom ni a'r rhan fwyaf o Baris i'w gofio. Roedd y broses gyfan wedi derbyn cefnogaeth dda gan dîm cymorth Taith ac mae'r profiad mae ein disgyblion wedi'i gael yn hollol eithriadol. Cyfle gwirioneddol unwaith mewn oes a ddaeth â dagrau llawenydd i bawb a oedd yn rhan ohono, yn enwedig y staff yn gweld wynebau’r disgyblion wrth i ni symud o gwmpas Paris yn gweld pethau oedden nhw wedi'u gweld mewn llyfrau neu ar y teledu’n unig.”*

Adam Goodman, Rheolwr, Canolfan Amanwy

---

[1] Data ar 31st March 2026

# 5. Llywodraethiant, Risg a Sicrwydd

## 5.1 Rheoli Risg

Mae **Cofrestr Risg Taith** yn rhan annatod o fframwaith rheoli risg y rhaglen ac mae’n cael ei hadolygu bob chwarter, o leiaf.

Mae'r risgiau mwyaf arwyddocaol sy'n effeithio ar y rhaglen ar hyn o bryd yn ymwneud â'r ansicrwydd ynghylch cyllid yn y dyfodol, ac anrhagweladwyedd yr effaith gallai digwyddiadau byd-eang ei chael ar deithio rhyngwladol a'r gallu i gyflawni.

Mae camau lliniaru yn cael eu monitro a'u hadolygu'n rheolaidd gan y tîm Arweinyddiaeth Uwch, y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd (ARAC) a Bwrdd ILEP Cyf.

## 5.2 Datganiad Sicrwydd Blynyddol

Mae Taith wedi cynhyrchu **Datganiad Sicrwydd Blynyddol**. Mae'r datganiad yn cadarnhau cydymffurfiaeth â gofynion a safonau rheoleiddiol. Mae hefyd yn datgelu digwyddiadau a adroddwyd trwy brosesau cydymffurfio rhwng Mawrth 2025 a Chwefror 2026.

Cafodd y datganiad ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd (ARAC) ym mis Mawrth 2026 a'i gyflwyno i Bwyllgor Cyllid a Seilwaith Prifysgol Caerdydd ym mis Ebrill 2026. Mae'r datganiad yn rhoi sicrwydd i Brifysgol Caerdydd bod Taith yn cyflawni ei rhwymedigaethau cyfreithiol a bod ganddi bolisïau a phrosesau corfforaethol clir ar waith i reoli a lliniaru risg


## 5.3 Llywodraethiant

Yn ei rôl fel Cadeirydd, ysgrifennodd Kirsty Williams lythyr at Lywodraeth Cymru ar 15 Medi 2025 yn argymell diddymu Bwrdd Ymgynghorol Taith unwaith byddai tymor yr aelodau yn dod i ben ym mis Chwefror 2026. Gwnaed yr argymhelliad hwn i gydnabod trawsnewidiad y rhaglen o gyfnod datblygu i gyflawniad llawn, ac o ystyried y sefyllfa

bresennol nad oes unrhyw barhad wedi'i gadarnhau o Taith y tu hwnt i ddiwedd Awst 2027.

Anfonwyd ymateb i lythyr Kirsty Williams ar 9 Rhagfyr 2025 gan Lywodraeth Cymru yn hysbysu bod y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg wedi cytuno i'r argymhelliad hwn, ac yna cyhoeddwyd Llythyr Amrywio Grant ar 26 Mawrth 2026.

Cynhaliwyd cyfarfod olaf Bwrdd Ymgynghorol Taith ar 8 Ionawr 2026. Dilynwyd hyn gan benodiad Kirsty Williams yn Gyfarwyddwr Bwrdd ILEP Cyf.



## 6. Datganiadau Ariannol

Paratowyd Datganiadau Ariannol ILEP Cyf ar gyfer y flwyddyn yn dod i ben ar 31 Gorffennaf 2025. Fe'u llofnodwyd gan y rheolwyr ar 9 Ionawr 2026 ac fe'u harchwiliwyd a'u cydlofnodi'n annibynnol gan KPMG ar 23 Ionawr 2026.

Yna cyflwynwyd y datganiadau i Fwrdd ILEP Cyf ar 4 Chwefror 2026 i'w hadolygu a'u cymeradwyo'n ffurfiol, gan sicrhau llywodraethu a goruchwyliaeth briodol cyn eu cwblhau.

Gellir gweld y cyfrifon ar wefan Tŷ'r Cwmnïau.




*"Mae rhaglen Taith wedi bod yn drawsnewidiol i'n disgyblion a'n staff. Heb Taith, ni fyddai mwyafrif ein disgyblion byth wedi cael y cyfle i deithio i America. Mae'r rhaglen hon wedi agor drysau i brofiadau trawsnewidiol, gan ganiatáu iddyn nhw ddatblygu sgiliau bywyd hanfodol, ymgolli mewn diwylliannau newydd, ac ehangu eu gorwelion mewn ffyrdd na feddyliom ni erioed eu bod yn bosibl. Mae Taith wedi gwireddu breuddwydion i gymuned ein hysgol"*

Vanessa Palmer, Pennaeth Cynorthwyol, Ysgol Calon Lân

Taith

Taith.cymru

Taith.wales